# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR



PLATFORM

**For mental health and social change**

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

# CYNNWYS

1 CROESO GAN EIN CADEIRYDD A'N PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

2 PWY YDYM NI A BETH RYDYM YN EI WNEUD

3 EIN CYLLID

4 EIN STRWYTHUR CYFREITHIOL

5 EDRYCH YMLAEN

6 RÔL YR YMDDIRIEDOLWR AC AM BWY RYDYM YN CHWILIO



# NEWID Y NARATIF AM IECHYD MEDDWL





## 1 CROESO GAN EIN CADEIRYDD A'N PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

### Annwyl ymgeisydd

Rydym yn falch bod gennych ddiddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr gyda Platfform. Os ydych yn teimlo cysylltiad â'n gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd, ac yn gweld hyn fel cyfle i gyfrannu tuag at drefniadau llywodraethu mudiad gwych (fe fydden ni'n dweud hynny), gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd yn y pecyn hwn yn eich ysbrydoli i ymgeisio am y rôl.

Mae bron bob Pecyn recriwtio ymddiriedolwyr yn dechrau â rhywbeth tebyg i 'byddech yn ymuno ar adeg gyffrous / mewn cyfnod heriol / mewn cyfnod o newid a chyfle'. Wel, pe baech yn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Platfform byddai pob un o'r rhain yn wir.

Mae ein gwaith yn ehangu o Gymru i rannau eraill o'r DU. Er ein bod yn gweithio mewn amgylchedd heriol iawn, yma yn Platfform rydym yn gweld her fel cyfle. Cyfle i feddwl mewn ffordd wahanol, i wneud pethau'n wahanol, i herio'r sefyllfa bresennol ac i gynnig ffyrdd newydd o feddwl ynglŷn â sut mae ein systemau'n gweithio, neu ddim yn gweithio, i'r bobl maen nhw yno i'w helpu.

Mae angen esblygu'r ffordd rydym yn deall ac yn ymateb i drallod emosiynol. Mae angen iddi fod wedi'i gwreiddio ym mhenderfynyddion cymdeithasol iechyd ac iechyd meddwl, a chael ei gweld drwy lens hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol. Credwn yn gryf fod ein systemau iechyd meddwl presennol wedi torri, a'u bod yn achosi niwed, a hyd yn oed farwolaeth.

Gwyddom ein bod yn fwy tebygol o brofi heriau iechyd meddwl a dod i gysylltiad â'r system iechyd meddwl, neu systemau iechyd cyhoeddus a chyfiawnder troseddol eraill, os ydym wedi profi trawma, tlodi, ac anghydraddoldeb. Nid yw 'salwch meddwl' wedi'i rannu'n gyfartal, ac mae tystiolaeth i brofi hyn. Mae iechyd meddwl yn gysylltiedig â chyfiawnder cymdeithasol, a rhan greiddiol o genhadaeth Platfform yw mynd at wraidd iechyd meddwl gwael. Ein rôl ni fel Ymddiriedolwyr yw cyflawni'r genhadaeth hon.

Rydym yn cefnogi dros ddwy fil ar bymtheg o bobl y flwyddyn, gan weithio ar draws yr ystod oedran, gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sengl, hyfforddi a chefnogi gweithwyr proffesiynol a chefnogi cyflogwyr. Rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, partneriaid trydydd sector, a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn trawsnewid ein systemau helpu, a'n huchelgais yw cynyddu ein gwaith a'i effaith. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw perthnasoedd, cydweithio a chydgynhyrchu.

Wrth i ni dyfu, mae angen i'n trefniadau llywodraethu esblygu. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn ffynnu a'n bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae angen i ni gynrychioli'r ardaloedd a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Wrth i ni ymestyn ein model gweithredu, bydd ein trefniadau llywodraethu'n esblygu er mwyn parhau i ychwanegu gwerth yn holl waith Platfform.

Ar drothwy cam nesaf ein twf a'n datblygiad, rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr sy'n angerddol am ein pwrpas, ac sy'n dod â phrofiad o lywodraethu a/neu arweinyddiaeth strategol sy'n berthnasol i'n gwaith. Rydym yn awyddus i gwrdd â phobl sydd â phrofiad o'r system iechyd meddwl, o faterion cyhoeddus ac eiriolaeth sy'n gysylltiedig â chyfiawnder cymdeithasol, dyngarwch, polisi ac ymchwil cymdeithasol, cynhyrchu incwm, trawsnewid digidol a chynllunio sefydliadol a datblygu arweinyddiaeth.

Rydym yn chwilio am bobl i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr sydd â'r awydd a'r profiad i'n helpu i barhau i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn hwyluso llwyddiant sefydliadol, sy'n gweithio mewn cysylltiad agos ac ar y cyd â'n tîm gweithredol ac sy'n cadw llygad bob amser ar ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a strategaeth, a'r dyfodol.

Os gallech chi wneud hyn, byddem yn falch o glywed gennych. Mae'r holl fanylion ynglŷn â sut i ymgeisio yn y pecyn hwn. Os hoffech gael sgwrs anffurfiol, byddem yn fwy na pharod i siarad â chi – cysylltwch â **heidiodriscoll@platfform.org**.

Diolch eto am ddangos diddordeb yn ein gwaith. Pob hwyl.

**Anne-Louise Clark, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac Ewan Hilton, Prif Swyddog Gweithredol**

PLATFFORM

# 2 PWY YDYM NI A BETH RYDYM YN EI WNEUD

**Platfform yw'r elusen ar gyfer iechyd meddwl a newid cymdeithasol.**

Mae ein gwreiddiau ym mhrofiadau'r bobl rydym yn eu cefnogi, y cymunedau lle rydym yn gweithio, a'n brwydr i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.

Cawsom ein sefydlu yn niwedd yr 80au fel elusen fach ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn darparu tai a chymorth i oedolion yng Nghymru a oedd yn gadael sefydliadau seiciatrig arhosiad hir. Dros y blynyddoedd rydym wedi tyfu ac amrywio ein gwaith i gynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion, teuluoedd, grwpiau cymunedol a busnesau. Ond yr un yw ein cenhadaeth-darparu cymorth cymunedol, tosturiol yn seiliedig ar anghenion yn agos at gartrefi pobl. Drwy weithio gydag unigolion a'r systemau a'r gwasanaethau sy'n bodoli o'u cwmpas, rydym yn helpu i adeiladu amgylcheddau iach lle mae pobl yn tyfu, byw a gweithio, fel bod pawb yn gallu perthyn a ffynnu.

Mae hyn oherwydd bod ein hamgylchiadau yn dylanwadu ar ein bywydau a'n hiechyd meddwl. Dim ond drwy 'fynd at wraidd y broblem' y gallwn fynd i'r afael â salwch meddwl. Mae hyn yn golygu bod cartrefi diogel, sefydlogrwydd ariannol, adnoddau cymunedol, mannau gwyrdd, cyfleoedd ystyrlon, a gweithleoedd seicolegol ddiogel i gyd yn ymyriadau iechyd meddwl. Mae hyn hefyd yn golygu peidio â diffinio anghyfiawnder a thrallod fel problemau meddygol, a pheidio â gadael i unigolion ysgwyddo baich, bai, a chywilydd problemau cymdeithasol.

Ar adeg ysgrifennu hyn, rydym yn cyflogi 350 o bobl yn yr elusen (a 150 arall yn ein his-gwmni), yn cefnogi dros 17,000 o bobl y flwyddyn, ac yn darparu dros 165 o brosiectau a gwasanaethau ledled Cymru a'r DU. Mae ein gwaith yn rhychwantu gwasanaethau argyfwng iechyd meddwl, tai â chymorth a digartrefedd, ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, cyflogaeth a gwirfoddoli, therapïau siarad, prosiectau cymunedol, llesiant yn y gweithle a mentrau cymdeithasol.

Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth, storïau a phrofiad o weithio gyda chymunedau, gwasanaethau cyhoeddus ac arweinwyr fel sail i'n ffordd o newid a hybu newid. Mae cydgynhyrchu a rhannu grym yn greiddiol i'n gwaith. Gan ein bod yn cael ein harwain gan yr hyn sy'n bwysig i bobl, rydym yn ymuno â phobl eraill i greu'r amodau ar gyfer gwell iechyd meddwl, cyfiawnder a gobaith.

## FELLY PWY YDYM NI?

### Ein Gweledigaeth


**Llesiant Cynaliadwy i Bawb.**

*Llesiant* yn golygu ymdeimlad o bwrpas, optimistiaeth, gobaith, galluedd, a chyfeiriad, *Cynaliadwy* yn golygu para'n hir, a *Phawb* yn golygu pob un ohonom, beth bynnag ein cefndir a'n gwahaniaethau.

## EIN GWERTHOEDD

Ym mhopeth rydym yn ei wneud rydym yn ceisio bod

- **Yn Gysylltiedig**
  oherwydd mae ein perthnasoedd yn cael effaith fawr ar ein bywydau ac yn eu llywio.
- **Yn Dosturiol**
  oherwydd mae ar bob un ohonom angen i hyn fodoli a chael ei flaenoriaethu yn ein systemau gwasanaethau cyhoeddus a'n gweithleoedd.
- **Dewr**
  oherwydd mae arnom eisiau newid y byd a does gennym ni ddim ofn bod yn onest pan nad yw pethau'n gweithio.
- **Yn Chwilfrydig**
  oherwydd mae'n hanfodol nad ydym byth yn stopio gwrando a dysgu.



# DEWR, TOSTURIOL, CYSYLLTIEDIG, CHWILFRYDIG



## EIN CENHADAETH

**Mae Platfform yn sefydliad â chenhadaeth.**
**Rydym yn bodoli er mwyn:**

- Esblygu'r naratif am iechyd meddwl drwy wneud lle i ddealltwriaeth o drallod sy'n seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol ac sy'n canolbwyntio ar yr effaith y mae trawma, profiadau bywyd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ei gael ar ein hiechyd meddwl a'n gallu i wella. Rydym yn gweithio er mwyn newid agwedd y cyhoedd a thrawsnewid y ffordd y mae pobl yn gofyn am help ac yn cael help yng nghanol eu trallodion.
- Gwneud i 'systemau helpu' cymdeithas, er enghraifft gwasanaethau iechyd meddwl, digartrefedd, a phlant a phobl ifanc, weithio'n well i bobl sy'n mynd drwy adegau anodd – gan sicrhau ymatebion tosturiol, di-ragfarn, a dynol i drallod.

**Ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yw'r prawf litmws ar gyfer popeth rydym yn ei wneud, ac – yn bwysig iawn – popeth rydym yn osgoi ei wneud.**

## BETH RYDYM YN EI WNEUD

Mae ein gwaith yn cael ei grwpio fel a ganlyn:

- **Atal argyfwng a chartrefi:**
  tai argyfwng iechyd meddwl, tai â chymorth, canolfannau galw heibio am gyngor yn y gymuned, gwaith maes digartrefedd, cymorth i ganfod/cadw tŷ diogel
- **Plant, teuluoedd a chymuned:**
  cymorth un-i-un, grŵp a theulu cyfan, rhaglenni llesiant ysgolion ac ymyriadau iechyd meddwl, cymorth mynediad agored mewn argyfwng a'r tu allan i oriau gwaith, datblygu cymunedol sy'n ystyriol o drawma
- **Cyflogaeth, gwirfoddoli a llesiant:**
  mentora cymheiriaid, coetsio, cymwysterau a phrosiectau llesiant i alluogi pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu sgiliau a hyder i ganfod a chadw gwaith gwirfoddol a/neu waith cyflogedig
- **Therapïau siarad:**
  i oedolion, plant a theuluoedd drwy ein gwasanaeth cwnsela proffesiynol sydd wedi'i achredu gan BACP (darllenwch ragor yma: **Therapi sydd wedi Ennill Gwobrau a Chwnsela yng Nghaerdydd**)
- **Llesiant yn y gweithle a gwasanaeth ymgynghori:**
  hyfforddiant iechyd meddwl, goruchwyliaeth glinigol, ymyriadau yn seiliedig ar seicoleg, datblygu arweinyddiaeth (darllenwch ragor yma: **Cymorth Llesiant yn y Gweithle Arbenigol | Adeiladu Timau sy'n Ffynnu**)
- **Ymgyrchoedd:**
  polisi, materion cyhoeddus a dylanwadu, ymatebion i ymgyngoriadau'r Llywodraeth, cyflwyno tystiolaeth, ymchwil ac ymgyrchoedd/ digwyddiadau (darllenwch ragor yma: **Newid systemau - Platfform**)
- **Mentrau cymdeithasol:**
  busnes cymdeithasol sy'n eiddo i'r aelodau, APP UK, yn cynnig gwasanaethau glanhau masnachol, diogelwch, cynnal a chadw tir ac adeiladau, nwyddau a chyflenwadau (darllenwch ragor yma: **app-uk.co.uk | Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi APP UK**)

PLATFFORM



“SA I’N TEIMLO’N GYFFORDDUS GYDA LLAWER O BOBL, SA I BYTH YN SIARAD YN AGORED FEL HYN… (RO’N I’N) GWYBOD Y GALLWN I SIARAD GYDA CHI O’R DECHRAU UN, DOEDDECH CHI DDIM YN FY MARNU, AC ROEDD HI’N SGWRS NORMAL… DIOLCH AM FY HELPU I GAEL TREFN AR BETHAU. TRUENI NAD OEDDECH CHI YMA CYN HYN.”

**Un o breswylwyr Ein Llais (Dan)**

“RWY’N TEIMLO MOD I AR Y FFORDD I WIREDDU’R BREUDDWYDION NAD O’N I’N CREDU EU BOD YN BOSIBL

DIOLCH I’R CAREDIGRWYDD, HYDER YNOF FI AC EMPATHI GYDA FY SEFYLLFA. MAE PLATFFORM YN BWYSIG I MI, AC I DDEFNYDDWYR Y GWASANAETH YN Y DYFODOL, AC UNRHYW UN SY’N CAEL ANHAWSTER GYDA’I BEN, PWY YDYN NHW, EI HYDER, AC YN BENNAF OLL EI WERTH. BYDDAF YN DDIOLCHGAR AM BYTH I’R SEFYDLIAD AM YR HYN MAEN NHW’N CEISIO EI WNEUD GYDA FI. RWY’N TEIMLO BOD BYWYD YN WERTH EI FYW ERBYN HYN AC MAE CYFLEOEDD I CHI. ”

**Gwasanaeth Di-waith Gwent (Ian)**

“RWY’N DOD YMA’N RHEOLAIDD BOB WYTHNOS, AC YN EDRYCH YMLAEN.”


**Unigolyn yn dod i ddigwyddiad cysylltu â’r gymuned yng Ngwent**

“SA I ERIOED WEDI BOD MEWN LLE FEL HYN O’R BLAEN, RO’N I’N NERFUS, OND ROEDD Y STAFF MOR GAREDIG. ROEDD GEN I OFN CAEL FY MARNU, OND ROEDDEN NHW’N FY NGWELD FEL UNIGOLYN AC MAEN NHW I GYD YN WYCH YMA.”

**Gwestai yn nhŷ cymorth mewn argyfwng Tŷ Cynnal**


“FE WNAETH PLATFFORM FY NGALLUOGI I GAEL Y CYMORTH ROEDD ARNA I EI ANGEN MEWN FFORDD OEDD YN CAEL EI HARWAIN GEN I, FEL Y PERSON IFANC […] RO’N I’N GALLU PENDERFYNU PA NEWIDIADAU RO’N I ANGEN EU GWNEUD YN FY MYWYD FY HUN. ROEDD PLATFFORM YNO I ROI CYMORTH I MI DRWY’R BROSES HON AC I’M HELPU I GAEL UNRHYW OFFER NEU ADNODDAU RO’N I EU HANGEN.”

**Person ifanc sy’n cael cymorth yn Abertawe**



# 3 EIN CYLLID

Mae gennym incwm grŵp blynyddol o tua £19.2 miliwn, wedi'i ddosbarthu ar draws ein meysydd gwaith fel a ganlyn:




## TROSIANT GRŴP PLATFFORM 2024/2025 TUA £19.2 MILIWN

PLATFFORM

# 4 CYFANSODDIAD A STRWYTHUR

Platfform yw enw masnachu Platfform for Change – Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.

Rhif Elusen Gofrestredig: 1000889

Rhif y Cwmni: 02546880


Gallwch weld ein gwybodaeth, gan gynnwys dogfennau llywodraethu a chyfrifon wedi'u harchwilio ar wefan y Comisiwn Elusennau yma **Trosolwg o'r elusen, PLATFFORM FOR CHANGE - 1000889, Cofrestr Elusennau – Y Comisiwn Elusennau**

## Strwythur y sefydliad: Bwrdd ac Arweinyddiaeth

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n bennaf gyfrifol am arweinyddiaeth strategol, llywodraethu, a rheolaeth briodol Platfform. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith y flwyddyn. O bryd i'w gilydd mae'n dirprwyo tasgau i is-grwpiau o'r Bwrdd, ond nid yw'n dirprwyo cyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys ymddiriedolwyr fel aelodau sy'n pleidleisio, ac mae staff perthnasol Platfform yn dod i'r cyfarfodydd.

Mae'r bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o arwain a rheoli Platfform o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Gweithredol. Ar wahân i'r ymddiriedolwyr, nid yw'r elusen yn dibynnu'n sylweddol ar wasanaethau gwirfoddolwyr di-dâl na rhoddion gan y cyhoedd.

**Mae ein pwyllgorau yn cyfarfod yn chwarterol, ac yn bwydo i mewn i gyfarfod y Bwrdd. Gallwch gyfarfod rhai o'r Ymddiriedolwyr a chydweithwyr sy'n rhan o dîm Platfform yma: Dyma ni.**





# ADEILADU AR SYLFEINI CRYF

## 5 EDRYCH YMLAEN

### Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Byddwn yn edrych ar ein trefniadau llywodraethu, gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer heddiw a'r dyfodol, a byddwn yn parhau i gydbwyso'r angen am ofod cynhyrchiol a sgwrs ochr yn ochr â chraffu trylwyr a chadarn ar ein gwaith a'n hymddygiadau.
- Byddwn yn parhau i fyw ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i fod yn seiliedig ar gryfderau, yn berthynol ac yn ystyriol o drawma yn ein gwaith gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, pobl sy'n eu comisiynu a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw yn y system ehangach.
- Byddwn yn dathlu ac yn rhannu lle mae pethau'n gweithio'n dda neu'n newid yn gadarnhaol, a byddwn yn ceisio sicrhau newid lle nad ydynt.
- Byddwn wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ystyried ein brand, cyn penderfynu sut i esblygu'r brand dros y 5 mlynedd nesaf.
- Byddwn wedi datblygu dull a ddefnyddir drwy'r sefydliad cyfan er mwyn gwella dealltwriaeth a dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith ar y bobl rydym yn eu cefnogi a'r systemau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt.
- Byddwn yn parhau i ymwreiddio ein strategaeth ddylanwad ar draws y sefydliad – gan sicrhau ei bod yn taro tant â chynulleidfaoedd amrywiol ac yn ein helpu i sicrhau newid.
- Byddwn yn datblygu strategaeth ariannol sy'n cefnogi ein cynaliadwyedd hirdymor ac yn ein galluogi i gyflawni ein huchelgeisiau.
- Byddwn yn gwella ein defnydd o dechnoleg a systemau busnes er mwyn cyflawni ein diben.

### Strategaeth 2025-2030: Adeiladu ar Sylfeini Cryf

Mae ein strategaeth wedi'i hadeiladu ar uchelgais fawr, ac mae wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau bod gennym sylfeini cryf i gyflawni ein cenhadaeth tra'n byw ein gwerthoedd yn fewnol ac yn allanol ym mhopeth rydym yn ei wneud.

**Ein huchelgais yw:**

- cael dylanwad ystyrlon ar lunio polisïau, arferion, gwasanaethau a systemau yng Nghymru a thu hwnt;
- dangos sut mae bod yn berthynol ac yn ystyriol o drawma yn arwain at well canlyniadau i'r bobl rydym yn eu cefnogi yn ogystal â'r bobl sy'n gweithio yn y system;
- parhau i dyfu ein prosiectau, gwasanaethau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori ledled y DU er mwyn cynyddu ein heffaith a'n cyrhaeddiad.

Mae ein gweledigaeth o Lesiant Cynaliadwy i Bawb hefyd yn golygu sicrhau cymdeithas deg lle bydd ar lai ohonom angen cymorth iechyd meddwl oherwydd bod gennym yr adnoddau o'n cwmpas i ffynnu. Mae hyn yn golygu rhoi terfyn ar anghyfiawnder ac anghydraddoldeb o bob math, a chreu cymdeithas lle mae pawb yn cael mynediad at y pethau y mae ar bob un ohonom eu hangen er mwyn byw'n dda. Mae'n hollbwysig ein bod yn herio anghydraddoldeb, a rhwystrau systemig yn ein sefydliad ein hunain – o'r Bwrdd i lawr – yn ogystal ag yn allanol.

Mae angen ategu'r ffordd rydym yn cyflawni ein strategaeth er mwyn sicrhau dulliau cadarn o ansawdd da o fynd i'r afael â llywodraethu corfforaethol, risg, diogelu a chydymffurfio, yn ogystal ag adeiladu gwydnwch ariannol hirdymor a chynaliadwyedd. Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu'r elusen, ein hasedau (ariannol ac fel arall), y bobl rydym yn eu cyflogi ac sy'n gwirfoddoli gyda ni, a'r bobl rydym yn eu cefnogi.

**Wrth i ni dyfu a datblygu, bydd ein hanghenion mewnol yn newid a bydd yr amgylchedd allanol yn parhau i newid o'n cwmpas, gan olygu bod angen i ni fod o leiaf un cam ar y blaen. Mae angen i ni greu sefydliad cryf a chynaliadwy; sy'n gallu rheoli ansicrwydd mewn hinsawdd economaidd anodd, er mwyn i ni allu parhau i gefnogi cymunedau ac unigolion a chyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.**

PLATFFORM

# 6 RÔL GWIRFODDOLWYR AC AM BWY RYDYM YN CHWILIO

## Am y rôl:

Mae ein Hymddiriedolwyr yn chwarae rhan hanfodol drwy gefnogi ein Prif Swyddog Gweithredol a'n tîm gweithredol i gyflawni ein strategaeth, gan adfyfyrio a gwirio ein hunain yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn sy'n bwysig i bawb, a sicrhau bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn iawn.

Gallwch ddarganfod rhagor am ddyletswyddau cyfreithiol Ymddiriedolwyr Elusennau yma - **5-minute guides for charity trustees - GOV.UK (www.gov.uk)https://www.gov.uk/government/collections/5-minute-guides-for-charity-trustees -** ac mewn mwy o fanylder yma - **https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3**

Yn Platfform rydym yn ceisio sicrhau bod mewnbwn a dylanwad ein Hymddiriedolwyr yn cyrraedd y tu hwnt i'r lefel sylfaenol, a'u bod yn cyfrannu at drafodaethau cynhyrchiol a llunio strategaeth. Rydym yn credu'n gryf ei bod yn fwy buddiol cael llawer o bobl i rannu eu meddyliau, rhinweddau a phrofiadau. Felly gwahoddir Ymddiriedolwyr Platfform i chwarae rhan weithredol yn y broses o helpu i bennu ein cyfeiriad strategol ar y cyd â'r tîm gweithredol a thimau eraill Platfform.

Gallwch ddarganfod mwy am ein Hymddiriedolwyr, ein tîm gweithredol, a rhai o'r tîm ehangach yma **https://platfform.org/about-us/this-is-us/**

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob wyth wythnos, wyneb yn wyneb ac ar-lein bob yn ail. Cynhelir digwyddiad strategol blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'r tîm gweithredol. Mae hwn yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb dros ddau ddiwrnod.

Nid oes tâl am wneud y gwaith, ond telir yr holl gostau rhesymol. Bydd Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am hyd at ddau dymor o bedair blynedd.

## Am bwy rydym yn chwilio:

Yn bennaf oll, mae angen i chi fod wedi eich ysbrydoli gan ein cenhadaeth, ac yn ei chefnogi.

Rydym wedi ymrwymo i fyw ein gwerthoedd ar lefel Bwrdd, a chynrychioli'r rhai hynny sy'n aml iawn yn cael eu tangynrychioli mewn sefydliadau. Rydym wedi ymrwymo i ddal i gynyddu amrywiaeth ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Ar hyn o bryd mae ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adeiladu ar ein gwaith gwrth-hiliaeth ac yn datblygu cynllun gweithredu newydd integredig sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac sy'n seiliedig ar ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol.

Gallwch ddarllen ein datganiad gwrth-hiliaeth a'n hymrwymiadau yma: **https://platfform.org/equality/**

Rydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad ym maes llywodraethu a/neu arweiniad strategol yn y sector elusennol, cyhoeddus a/neu fasnachol, ac sy'n hyderus i gyfrannu tuag at elusen uchelgeisiol sy'n tyfu'n gyflym.

Mae angen i'n Hymddiriedolwyr allu darparu goruchwyliaeth, cefnogaeth, a her er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gweithredu'r elusen yn ddiogel, tra'n cyfrannu hefyd tuag at drafodaeth gynhyrchiol a llunio ein strategaeth barhaus.

**Dyma rai o'r pethau penodol rydym yn chwilio amdanynt. Os nad ydych yn gweld eich hun yma, ond eich bod yn cysylltu â'n cenhadaeth ac yn teimlo bod gennych rywbeth i'w gynnig cysylltwch â ni; byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi hefyd.**

- **Uwch arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys llywodraethu, yn y sector elusennol, cyhoeddus neu fasnachol**
- **Cyllid strategol, materion masnachol a / neu reoli buddsoddiad cymdeithasol**
- **Dyngarwch a chodi arian**
- **Polisi cymdeithasol ac ymchwil**
- **Diogelu, risg a chydymffurfio, cyflawni gwasanaeth**
- **Polisi, materion cyhoeddus, ac ymgyrchu**
- **Ymchwil, data ac effaith**
- **Datblygu sefydliadol ac adnoddau dynol**

Rydym wrthi'n sefydlu Pwyllgor Cadernid Busnes a byddwn yn ceisio llenwi swyddi ar yr is-bwyllgor hwn fel rhan o'r rownd recriwtio hon. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r pwyllgor hwn, a'ch bod yn meddwl bod gennych y sgiliau a'r profiad priodol, cysylltwch â ni.

PLATFFORM

# BYW EIN GWERTHOEDD

Yn Platfform rydym wedi ymgorffori ein gwerthoedd ym mhob agwedd ar y sefydliad – gan gynnwys twf busnes a datblygu strategaeth. Rydym yn fwriadol heb bennu targedau ariannol ar gyfer twf neu nifer y bobl i'w cyrraedd. Mae popeth rydym yn ei wneud yn seiliedig ar ddiben a thwf sy'n seiliedig ar werthoedd lle mae contractau'n gwneud synnwyr yn ariannol ac yn ein galluogi i ddatblygu ein cenhadaeth.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r math o waith rydym yn ei wneud, yn fwy na 'faint.'

## Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Twf, nid Targedau

Mae Strategaeth Twf Platfform yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- **Perthynol** – mae arnom eisiau perthnasoedd dwfn, ystyriol, ar draws bob haen a lefel o'r system, o'r lleol i'r cenedlaethol
- **Cymryd ein hamser** – mae'r newidiadau y mae arnom eisiau eu gweld yn uchelgeisiol. Bydd yn cymryd amser ac mae angen i ni fod yn amyneddgar
- **Realistig a phragmataidd** – deall y cyd-destun allanol, yn enwedig ansicrwydd gwleidyddol a heriau economaidd, yn ogystal â'n heriau mewnol ni ein hunain
- **Sefydlogrwydd ariannol** – sicrhau twf cynaliadwy â digon o enillion ar gontractau i gyflawni ein diben drwy sicrhau ein bod yn bodloni anghenion creiddiol ein sefydliad
- **Cydweithredol ac wedi'i gydgynhyrchu** – gwneud gyda yn hytrach na gwneud i, cwrdd ag arianwyr lle maen nhw, cynnig atebion, cydweithio er mwyn sicrhau newid cymdeithasol a newid i systemau
- **Dilysrwydd yn ein dull gweithredu a'n stori** – byw ein gwerthoedd, adrodd stori ddilys sy'n seiliedig ar ein gwaith mewn cymunedau a beth mae pobl yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw

Mae ein dull gweithredu perthynol – o'r prosesau comisiynu a chaffael i sut a ble mae ein gwaith yn datblygu ar y cyd â chymunedau a sefydliadau eraill – yn golygu gweithio ochr yn ochr ag arianwyr a phartneriaid er mwyn deall cyd-destun, pwysau a beth yw eu hanghenion. Mae hefyd yn golygu bod yn ddewr, cadw'n driw i'n gwerthoedd a gwthio'n ôl yn barchus pan fyddwn yn teimlo ac yn gwybod bod rhywbeth ddim yn iawn. Os yw hyn yn golygu cerdded i ffwrdd neu ddweud na wrth gontract, rhoi pa bynnag fesurau sydd eu hangen yn eu lle er mwyn gwneud hyn yn ddiogel ac yn barchus.

O'n profiad ni, gwyddom fod perthnasoedd yn cymryd amser a llawer o ymdrech gan y ddwy ochr i'w meithrin a'u datblygu. Rydym yn buddsoddi amser ac egni i adeiladu a chynnal perthnasoedd rhagorol ym mhob agwedd ar ein gwaith. Nid oes arnom eisiau 'gollwng' atebion i gymunedau lle nad ydym wedi treulio amser yn barod yn adeiladu perthnasoedd ac yn dysgu am y cryfderau a'r adnoddau sydd ar gael.

**Wrth ddatblygu a chyflawni ein gwaith rydym yn seiliedig ar le, ac rydym yn mynd i ble bynnag mae'r egni a'r ymddiriedaeth. Mae'r gallu gennym i addasu a chydweddu ag anghenion y rhai rydym yn gweithio gyda hwy ar hyn o bryd, neu'r rhai rydym yn awyddus i weithio gyda nhw. Nid ydym yn cwyno 'dros ben pobl', ac nid ydym yn gweld bai nac yn codi cywilydd ar rywun arall sydd heb gael pethau'n iawn. Rydym yn dechrau o bwynt lle rydym yn credu bod pobl yn dda yn y bôn a bod arnynt eisiau gwneud y peth iawn. Rydym yn gydgynhyrchiol ac yn gweithio'n galed i greu atebion gyda phartneriaid ac arianwyr mewn ymateb i angen lleol. Rydym yn canfod beth yw'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny gyda'n gilydd.**



# SUT I YMGEISIO:

**Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl, ac y byddech yn hoffi darganfod mwy, edrychwch ar ein gwefan www.platfform.org a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol.**

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl cyn cyflwyno cais ffurfiol, cysylltwch â Heidi O'Driscoll, Cynorthwyydd Personol y Tîm Gweithredol, a fydd yn eich cyfeirio at Ewan, ein Prif Swyddog Gweithredol, neu Anne-Louise, ein Cadeirydd - **heidiodriscoll@platfform.org**.

**Ar gyfer y cais ffurfiol hoffem i chi anfon y canlynol atom:**

- C.V. cryno cyfredol (dim mwy na thair ochr) – peidiwch â phoeni os nad oes gennych lawer o hanes gwaith cyflogedig. Mae C.V. bywyd yr un mor ddiddorol i ni – felly byddwch mor greadigol ag y dymunwch.
- Un canolwr
- Datganiad byr, ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais* yn ateb y tri chwestiwn a ganlyn
  - Beth sydd o ddiddordeb i chi yn Platfform a pham?
  - Beth fyddai ein profiad ni ohonoch chi pe baech chi yn Ymddiriedolwr?
  - Pa ychwanegiad i'n trefniadau llywodraethu fyddech chi'n gallu ei gynnig?
- Ffurflen monitro Cydraddoldeb wedi'i llenwi. Dydyn ni ddim yn hoffi cael llawer o ffurflenni drwy'r adeg ychwaith, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn deall pwy rydym yn ei gyrraedd – ac, yn bwysig iawn, ddim yn ei gyrraedd – er mwyn i ni allu dal i wella ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant.

* *Ni ddylai cyflwyniadau ysgrifenedig fod yn fwy na dwy ochr A4 maint ffont 11. Ni ddylai nodiadau llais a fideos fod yn fwy na phedwar munud.*

Anfonwch eich cais i **heidiodriscoll@platfform.org** neu **07772 562101**.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Llun 23 Chwefror 2026** a byddwn yn llunio rhestr fer yr wythnos honno. Cynhelir y cyfweliadau **dydd Mawrth 10 a dydd Mercher 11 Mawrth 2026**.

Gofynnir am eirda ar ôl cynnig swydd.

PLATFFORM
For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol



PLATFORM

**For mental health and social change**
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol